59. Ymatebodd y Brifysgol ar 19 Chwefror 2016 gan ddweud bod Cod Ffynhonnell Cysill a Cysgeir ar gyfer y Mac ar gael oddi ar wefan benodol. Esboniodd y Brifysgol fod y cod wedi'i ryddhau o dan drwydded

BSD (Dosbarthiad Meddalwedd Berkley), nid trwydded GPL (Trwydded Gyhoeddus Gyffredinol) ac nad oedd y geiriaduron a'r data perthynol wedi'u cynnwys o dan delerau'r drwydded nac o dan delerau'r grant perthnasol. Dywedodd y Brifysgol ei bod o'r farn bod y codau ffynhonnell ar gyfer y geiriaduron a'r data perthynol yn wybodaeth fasnachol sensitif, ac felly fod yr wybodaeth yn esempt o dan adran 43(2) o'r Ddeddf.

60. Ar 23 Chwefror 2016 ysgrifennodd yr achwynydd at y Brifysgol gan ofyn am adolygiad mewnol o'i phenderfyniad i gadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ôl.
61. Rhoddodd y Brifysgol ganlyniad ei hadolygiad mewnol ar 14 Mehefin 2016 gan gadarnhau ei phenderfyniad bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani'n esempt o dan adran 43(2) o'r Ddeddf.

### **Rhychwant yr achos**

---

62. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd ar 12 Medi 2016 i gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'i gais am wybodaeth.
63. Rhychwant ymchwiliad y Comisiynydd i'r gŵyn hon yw penderfynu a ddylai'r Brifysgol ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

### **Y rhesymau dros y penderfyniad**

---

#### **Adran 43 – buddiannau masnachol**

64. Mae adran 43(2) o'r Ddeddf yn darparu esemptiad rhag datgelu gwybodaeth a fyddai'n niweidio, neu a fyddai'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei dal).
65. Yn fras, mae adran 43(2) yn diogelu gallu parti i gymryd rhan yn gystadleuol mewn gweithgarwch masnachol, er enghraifft prynu a gwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mae cymhwyso adran 43(2) yn llwyddiannus yn dibynnu ar allu'r awdurdod cyhoeddus i ddangos bod yr amodau a ganlyn wedi'u bodloni –
  - y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw barti (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei dal).

- bod pwysau'r budd cyhoeddus o blaid cynnal yr esemptiad yn drech, o dan yr holl amgylchiadau, na'r budd cyhoeddus o blaid datgelu'r wybodaeth.

*Safbwynt y Brifysgol*

66. Esboniodd y Brifysgol i'r Comisiynydd:

"Cysill and Cysgeir are part of the Cysgliad software compendium, copyright of Bangor University 2001-2017. Cysgeir is a Welsh spelling, grammar checker and thesaurus. Cysgeir an electronic Welsh/English dictionaries. Cysgliad is a software package combining Cysill and Cysgir to check spellings, mutations and other grammar rules, dictionaries, thesaurus and verb conjugator. Cysgliad was released by the Language Technologies Unit, Canolfan Bedwyr in 2004 for the PC. In accordance with the Welsh Language Boards' grant conditions, the version for the Mac was released free of charge in 2007 with the Mac interface component being released on a BSD licence, downloadable from [http://www.cysgliad.com/mac/index\\_en.html](http://www.cysgliad.com/mac/index_en.html)"

Cadarnhaodd y Brifysgol fod yr achwynydd wedi cael gwybod am y ddolen i'r rhyngwyneb ar gyfer y Mac a oedd ar gael yn gyhoeddus.

67. Yr wybodaeth sydd wedi'i chadw'n ôl yw cod ffynhonnell Cysill a data Cysill a chydannau Cysgeir gan gynnwys y geiriaduron a'r data perthynol. Mae'r Brifysgol o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn niweidio'i buddiannau masnachol hi ei hun.
68. Cafodd datblygiad gwreiddiol meddalwedd Cysgliad ar gyfer cyfrifiadur personol ei ariannu'n rhannol gan grant oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg (2004), ac felly hefyd datblygiad fersiwn ar gyfer y Mac yn nes ymlaen (2007). Serch hynny, ers yr adeg honno nid yw'r Brifysgol wedi cael rhagor o gymorth grant ar gyfer meddalwedd Cysgliad, a'i gymorth a'i ddatblygiad wedyn. Mae ar Cysgliad ar gyfer y cyfrifiadur personol angen gwaith cynnal cyson gan staff sy'n gweithio yn Uned Technolegau Iaith y Brifysgol ('yr Uned'), wrth i Microsoft ryddhau fersiynau newydd o feddalwedd Windows ac Office.
69. Esboniodd y Brifysgol fod meddalwedd compendiwm Cysgliad ar gyfer y cyfrifiadur personol yn gynnwys masnachol i gyfrifiaduron sydd â systemau gweithredu Windows. Mae 37,698 o drwyddedau wedi'u gwerthu hyd yn hyn (5,497 o fersiynau cartref a 32,201 o drwyddedau rhwydwaith). Gwerth y trwyddedau rhwydwaith hyd yn hyn yw £260,496. Dim ond ers 2008 y mae gan y Brifysgol gofnodion o werthiannau'r fersiwn cartref a chyfanswm y gwerthiannau hyn yw £55,012.



70. Yn ychwanegol, mae cydrannau allweddol ym meddalwedd a data Cysgliad wedi'u trwyddedu'n fasnachol ar wahân i Gorfforaeth Microsoft ar gyfer eu gwirydd sillafu nhw ar gyfer Microsoft Office (heb y gwirydd gramadeg) mor bell yn ôl â 2005, ac i'r BBC ers 2009 ar gyfer eu geiriadur LearnWelsh nhw a'u gemau dysgu iaith. Yn ychwanegol, mae cydrannau wedi'u defnyddio mewn cynhyrchion eraill sydd wedi'u datblygu gan yr Uned drwy arian grant a chomisiynau. Esboniodd y Brifysgol bod y ffaith bod y gwahanol gydrannau ar gael yn allweddol o ran ennill y grantiau a'r comisiynau hyn, fel yr amlygir isod:

"For example, the lemmatizer and dictionary data which is built from Cysill and Cysgeir components is a key element in the electronic dictionaries in the Welsh National Terminology Portal (<http://termau.cymru/?lang=en>); the corpora in the Welsh National Corpora Portal (<http://corpws.cymru/?lang=en>); the Vocab, Part of SpeechTagger and other resources in the Welsh National Language Technologies Portal (<http://techiaith.cymru/?lang=en>)"

71. Mae'r cyfan o'r arian sy'n dod i law drwy werthu trwyddedu meddalwedd Cysgliad ar gyfer y cyfrifiadur personol yn mynd tuag at dalu cyflogau'r staff sy'n gweithio yn yr Uned. Mae'r Uned yn uned ymchwil a hunan-ariennir o fewn Canolfan Bedwyr – Canolfan y Brifysgol ar gyfer Gwasanaethau, Ymchwil a Thechnoleg Gymraeg. Mae gan yr Uned bedwar aelod staff amser-llawn a dau aelod rhan-amser. Nid yw'n cael arian craidd gan y Brifysgol ac mae'n dibynnu'n llwyr ar refeniw o drwyddedau meddalwedd, sicrhau grantiau a chomisiynau i dalu am gyflogau'r staff a gweithgareddau ymchwil.
72. Mae'r Uned wedi buddsoddi'n sylweddol dros amser i sicrhau, gwirio, gwella a chyflwyno'r data. Mae'r feddalwedd yn un o'r cynhyrchion amlaf eu trwyddedau yng Nghymru o ran cynnal y Gymraeg. Ynghyd â'r feddalwedd arall a gynhyrchwyd gan yr Uned, mae Cysgliad ar gyfer y cyfrifiadur personol wedi helpu'r Brifysgol i gyrraedd y brig mewn tabl trwyddedau meddalwedd i brifysgolion y Deyrnas Unedig.
73. Y Brifysgol biau hawliau eiddo deallusol y feddalwedd a'r cronfeydd data y tu ôl iddi. Er mai deiliaid yr hawlfreintiau unigol a luniodd y geiriaduron biau hawlfraint y geiriaduron a gyhoeddwyd, mae hawliau eiddo deallusol cronfa ddata Cysgeir (sy'n dal y data ar ffurf electronig) yn perthyn i'r Brifysgol. Gan hynny, mae'r Brifysgol yn haeru ei bod yn dod o dan y rheolau yn Rheoliadau Hawlfraint a Hawliau Cronfeydd Data 1997 ('Rheoliadau 1997'). Mae adran 16 o Reoliadau 1997 yn darparu bod hawliau cronfa ddata yn cael eu torri os bydd unigolyn yn codi neu'n aildefnyddio'r cyfan neu ran sylweddol o'r cynnwys heb gydsyniad. Cronfeydd data'r geiriaduron yw'r hyn y mae'r Brifysgol yn credu na ddylai gael ei gyhoeddi a hynny am fod adnoddau sylweddol wedi'u buddsoddi i'w dylunio a'u rhoi ar waith, ac nid yw'r rhain wedi bod ar

gael yn gyhoeddus byth. O ran hawliau cronfeydd data, esboniodd y Brifysgol mai dim ond pan fo'r gronfa ddata wedi'i chyhoeddi eisoes y caniateir ymchwil anfasnachol. Cadarnhaodd y Brifysgol hefyd fod pob un o'r geiriaduron heblaw geiriadur Cysgeir ar gael i'w gwerthu ar ffurf papur.

74. Dywedodd y Brifysgol wrth y Comisiynydd ei bod yn ymwybodol drwy negeseuon agored yn y cyfryngau cymdeithasol fod yr achwynydd yn yr achos hwn wedi mynegi ei awydd i datblygu languagetool – sef cynnyrch i gystadlu â Cysill. Esboniodd y Brifysgol fod languagetool (<https://languagetool.org/>) yn cyfeirio at wirydd sillafu a gramadeg agored sy'n debyg i'w meddalwedd Cysill hi a all gael ei datblygu ar gyfer unrhyw iaith gan y gymuned agored. Mae ar languagetool angen rheolau iaith-benodol a data er mwyn gweithio gydag iaith benodol. Mae'r Brifysgol o'r farn mai dyna ddiben y cais.
75. Mae'r Brifysgol yn gwybod nad yw'r Ddeddf yn effeithio ar hawlfraint a hawliau eiddo deallusol. Er hynny, nododd fod yr achos hwn yn ymwneud â hawliau eiddo deallusol ynglŷn â meddalwedd a chyfeiriodd at y ffaith bod nifer o achosion llys wedi bod ynglŷn â chwmnïau meddalwedd a gyhuddwyd o dorri hawlfraint pobl eraill. Mae'r achosion hyn yn ddrud iawn ac yn llyncu llawer o amser a chyfeiriodd y Brifysgol at yr anghydfod bresennol rhwng Oracle a Google<sup>3</sup> fel un enghraifft o hyn. Dywedodd y Brifysgol fod llawer o gwmnïau meddalwedd bach wedi rhoi'r gorau i fasnachu am fod hawlfreintiau wedi'u torri ac oherwydd eu methiant i sicrhau'r adnoddau a'r arian y gall cwmnïau mawr eu defnyddio mewn achosion llys o'r fath. Dywedodd y Brifysgol nad oes ganddi'r cyllid na'r adnoddau i blismona'i hawliau eiddo deallusol mewn achos o'r fath. Mae gan y Brifysgol bryderon bod ei hawliau eiddo deallusol yn cael eu camddefnyddio gan unigolion a chwmnïau rhyngwladol mawr fel Google, Facebook neu Microsoft sydd i gyd wedi cydadweithio â hi yn y gorffennol ynghylch ei meddalwedd a'i data.
76. Pe bai'r wybodaeth a gadwyd yn ôl, y mae'r hawliau eiddo deallusol ynglŷn â hi yn perthyn iddi, yn cael ei datgelu, mae'r Brifysgol o'r farn y byddai hynny'n caniatáu i bersonau/sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth o dan sylw. Gan nad oes ganddi'r cyllid a'r adnoddau i "blismona" achosion o dorri ei hawliau eiddo deallusol yn effeithiol, mae'r Brifysgol yn haeru y byddai datgelu'r wybodaeth yn effeithio ar y refeniw sy'n dod i law drwy werthu'r pecyn. Gan fod yr Uned yn dibynnu ar refeniw o drwyddedau meddalwedd, byddai datgelu'r wybodaeth yn arwain at effaith o bwys ar hyfywedd ariannol yr Uned.

---

<sup>3</sup> <https://www.theguardian.com/technology/2016/may/26/google-wins-copyright-lawsuit-oracle-java-code>

*Safbwynt yr achwynydd*

77. Fel y nodwyd ym mharagraff 2 o'r hysbysiad hwn, yn ei gais cychwynnol, dywedodd yr achwynydd hyn:

"Yn olaf nodaf eich bod wedi tynnu nifer o adnoddau oddi ar yr hen wefan e-gymraeg.org.uk megis Cysgliad i'r Mac. Fel un sydd wedi defnyddio'r meddalwedd yma rwy'n ymwybodol eich bod wedi ei rhyddhau dan delerau gymharol haelionus ynghyd a rhan o'r cod dan y GPL. O ganlyniad i dynnu'r adnodd, gan nodi bod Bwrdd yr Iaith wedi gosod amodau penodol yn rhan o'r grant, gofynnaf dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am god ffynhonnell Cysill a Cysgeir i'r Mac, y geiriaduron a'r data cysylltiedig".

78. Dywedodd y Brifysgol wrth y Comisiynydd fod y gosodiad uchod yn cynnwys gwallau. Rhoddwyd y gorau i'r wefan e-gymraeg.org.uk fel rhan o waith rhesymoli i leihau nifer y cyfeiriadau gwefan sy'n perthyn i'r Brifysgol, a chafodd adnoddau eu symud i wefannau cyfredol eraill. Fel y nodwyd ym mharagraff 10 o'r hysbysiad hwn, dywedodd y Brifysgol wrth yr achwynydd am y cyfeiriad gwe newydd ar gyfer Cysgliad i'r Mac. Mae o'r farn ei bod, drwy wneud hyn, wedi cydymffurfio â'r rhan o'r cais y gallai gydymffurfio â hi.

79. Cadarnhaodd y Brifysgol na chafodd yr adnoddau y cyfeiriodd yr achwynydd atynt eu rhyddhau o dan y drwydded GPL erioed. Trwydded BSD yw'r drwydded o dan sylw, sy'n fwy hael ei natur. Er bod GPL yn pennu bod unrhyw ddatblygwr sy'n defnyddio'r drwydded yn gorfod rhyddhau eu cod mewn modd tebyg, dywedodd y Brifysgol nad oes cyfyngiadau o'r fath yn y BSD. Roedd y grant a gafodd y Brifysgol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â datblygu'r feddalwedd yn cynnwys amodau ynghylch dosbarthu fersiwn Cysgliad ar gyfer y Mac, a chydran rhyngwyneb Cysgliad ar gyfer y Mac (yr unig ran o'r pecyn oedd yn wahanol i'r fersiwn ar gyfer y cyfrifiadur personol) am ddim. Er hynny, cadarnhaodd y Brifysgol nad oedd amodau'r grant yn cynnwys darpariaeth ynghylch cod ffynhonnell cydrannau Cysill a Cysgeir, y geiriaduron nac unrhyw ddata perthynol arall, sef yr wybodaeth a gadwyd yn ôl.

80. Yn ei gais am adolygiad mewnol, nododd yr achwynydd nad oedd hawlfraint yn atal yr wybodaeth rhag cael ei rhyddhau o dan y Ddeddf. Dywedodd hefyd: "Er hyn nodaf nad oes hawlfraint ar eiriaduron electronig, yn ei le, Rheoliadau Hawlfraint a Hawliau Cronfeydd Data 1997 sy'n berthnasol". Gan fod yr hawlfraint yn perthyn i'r Brifysgol, mae'r achwynydd yn haeru na allai gael ei defnyddio'n fasnachol gan berson arall. Mae o'r farn hefyd fod yna fudd cyhoeddus mewn caniatáu i'r cyhoedd graffu ar ansawdd Cysill.

*Safbwynt y Comisiynydd*

81. Er mwyn i esemptiad sydd wedi'i seilio ar niwed, megis adran 43(2), fod yn berthnasol mae'r Comisiynydd o'r farn bod rhaid i dri amod gael eu bodloni:
- Yn gyntaf, mae'n rhaid bod y niwed gwirioneddol y mae'r awdurdod cyhoeddus yn honni y byddai'n digwydd – neu'n debyg o ddigwydd – pe câi'r wybodaeth a gadwyd yn ôl ei datgelu fod yn berthnasol i'r buddiannau cymwysadwy yn yr esemptiad perthnasol;
  - Yn ail, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus allu dangos bod rhyw berthynas achosol yn bodoli rhwng y posibilrwydd o ddatgelu'r wybodaeth sy'n cael ei chadw'n ôl a'r niwed y bwriedir i'r esemptiad ei amddiffyn. Ymhellach, rhaid i'r niwed yr honnir y bydd yn codi fod yn real, yn wirioneddol neu'n sylweddol; ac
  - Yn drydydd, mae angen sefydlu a yw lefel y tebygrwydd y ceir niwed y mae'r awdurdod cyhoeddus yn dibynnu arno wedi'i gyrraedd – hynny yw y byddai datgelu'r wybodaeth 'yn debyg' o arwain at y niwed neu y 'byddai' datgelu'r wybodaeth yn arwain at niwed. O ran y trothwy isaf, mae'r Comisiynydd o'r farn bod rhaid i'r siawns y ceir niwed fod yn fwy na phosibilrwydd damcaniaethol; yn hytrach rhaid bod yna risg real ac arwyddocaol. O ran y trothwy uchaf, ym marn y Comisiynydd mae hyn yn gosod baich trymach i'w gyflawni ar yr awdurdod cyhoeddus.
82. Mae'r Comisiynydd yn fodlon bod yr amod cyntaf yn bendant yn berthnasol o gofio bod natur y niwed a ragwelir i fuddiannau'r Brifysgol yn syrthio o fewn rhychwant yr esemptiad a geir yn adran 43(2).
83. O ran yr ail amod a'r trydydd, mae'r Comisiynydd yn nodi bod y Brifysgol o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl, sy'n dod o dan hawliau eiddo deallusol y Brifysgol, yn caniatáu i bobl eraill ddatblygu cynhyrchion drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Byddai hyn yn effeithio ar y refeniw y mae'n ei gael drwy wrthiannau masnachol y cynhyrchion o dan sylw, ac y byddai hynny yn ei dro yn debyg o arwain at dranc yr Uned, sy'n ei hariannu ei hun.
84. Mae canllawiau'r Comisiynydd ar hawliau eiddo deallusol a datgelu gwybodaeth o dan yn Ddeddf<sup>4</sup> yn egluro nad yw hawlfraint yn atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf. Bydd hawlfraint yn dal

---

<sup>4</sup> [https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1150/intellectual\\_property\\_rights\\_and\\_disclosures\\_under\\_the\\_foia.pdf](https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1150/intellectual_property_rights_and_disclosures_under_the_foia.pdf)

yn berthnasol i'r wybodaeth ar ôl iddi gael ei datgelu. Mae'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth yn dal o dan rwymedigaeth, yn y gyfraith, i barchu hawliau perchennog yr hawlfraint. Os na fydd yn eu parchu, gall perchennog yr hawlfraint geisio sicrhau iawndal neu waharddeb yn yr un modd ag ar gyfer unrhyw dor hawlfraint. Er hynny, fe fydd adegau pan fo gwybodaeth y gofynnwyd amdani'n dod o dan hawlfraint a bod iddi werth masnachol ac na fydd hawlfraint yn diogelu buddiannau masnachol ar ôl iddi gael ei datgelu.

85. Yn yr achos hwn, mae gan y Brifysgol hawliau eiddo deallusol yn y feddalwedd a'r gronfa ddata y tu ôl iddi ac mae o'r farn bod hawliau eiddo deallusol cronfeydd data Cysgeir yn dod o dan reolau Rheoliadau 1997.
86. Mae hawliau cronfeydd data yn amddiffyn y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud wrth gasglu'r deunyddiau a gynhwysir mewn cronfa ddata, dilysu a chyflwyno'r wybodaeth honno a chynnal y gronfa ddata hefyd. Sefydli'r hawliau hyn o dan Reoliadau 1997, ac mae diffiniad o gronfa ddata i'w gael yn Neddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 ('y CDPA').
87. Mae adran 3A o'r CDPA yn diffinio cronfa ddata fel hyn:
- "(1) In this Part "database" means a collection of independent works, data or other material which –
- (a) are arranged in a systematic or methodical way, and
  - (b) are individually accessible by electronic or other means."

88. Mae canllawiau'r Comisiynydd ar hawliau eiddo deallusol yn dweud hyn ym mharagraff 32:

"... databases relate to existing information that has been gathered together and presented in a way that makes it more useful. The database is then protected by the Database Regulations, which recognise that the effort in gathering the material to be included in the database, and subsequently maintaining the database, warrants protection."

89. Mae Rheoliadau 1997 yn rhoi manylion ynghylch pryd y bydd hawliau cronfeydd data yn codi. Mae Rheoliad 13(1) yn dweud:

"(1) A property right ("database right") subsists, in accordance with this Part, in a database if there has been a substantial investment in obtaining, verifying or presenting the contents of the database."

90. Ym marn y Comisiynydd, mae hyn yn golygu y bydd angen i awdurdod cyhoeddus ddangos bod creawdwr y gronfa ddata wedi buddsoddi ymdrech sylweddol mewn sicrhau, dilysu, cyflwyno a chynnal yr

wybodaeth a gynhwyswyd mewn cronfa ddata. Bernir hyn yn ôl maint y gwaith a pha mor anodd yw'r gwaith, felly gall gael ei gloriannu'n feintiol ac yn ansoddol.

91. Prif achos Llys Cyfiawnder Ewrop ar hawliau cronfeydd data yw *The British Horseracing Board Ltd and Others v William Hill Organisation Ltd [2004] EUECJ C-203/02 (09 November 2004)*. Yn yr achos hwnnw, dywedodd Llys Cyfiawnder Ewrop fod rhaid i'w ymadrodd "investment in ... the obtaining ... of the contents' of a database" gael ei ddeall fel pe bai'n cyfeirio at:

"... the resources used to seek out existing independent materials and collect them in the database. It does not cover the resources used for the creation of materials which make up the contents of a database."  
(para 42)

92. Mae hawliau cronfeydd data'n cael eu torri pan gaiff rhan sylweddol o'r gronfa ddata ei defnyddio heb ganiatâd deiliad yr hawliau. Mae'r Comisiynydd o'r farn y gall y cyfeiriad at 'ran sylweddol' gyfeirio at faint yr wybodaeth neu at arwyddocâd y rhan a ddefnyddiwyd, o'i chymharu â'r gronfa ddata yn ei chrynswth.
93. Ar sail dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop, y cyfeiriwyd ato uchod, mae'r Comisiynydd yn nodi bod cryn ymdrech yn gorfod bod wedi'i gwneud i chwilio am ddeunyddiau annibynnol presennol a'u casglu yn y gronfa ddata er mwyn i hawliau cronfeydd data fod yn berthnasol.
94. Mae'r Comisiynydd yn derbyn, ar ôl cael sampl o'r wybodaeth sydd gan y Brifysgol, fod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chynnwys mewn cronfa ddata. Yn ychwanegol, mae'r Comisiynydd yn derbyn bod cronfeydd data'r geiriaduron yn cynnwys gwybodaeth bresennol (y geiriaduron cyhoeddedig) y mae'r Brifysgol wedi'i chasglu ac wedi'i hatgynhyrchu ar ffurf electronig i'w defnyddio yng nghompendiwm meddalwedd Cysgliad. Ymhellach, ar sail sylwadau'r Brifysgol mae'r Comisiynydd yn derbyn bod y Brifysgol wedi buddsoddi cryn dipyn o amser i gasglu a chyflwyno'r data. Gan hynny mae'r Comisiynydd yn credu ei fod yn cael ei ddiogelu gan Reoliadau 1997.
95. Er mwyn i'r Comisiynydd gael ei bodloni bod y Brifysgol wedi defnyddio adran 43(2) o'r Ddeddf yn llwyddiannus, rhaid iddi gael ei bodloni y byddai datgelu'r wybodaeth yn effeithio'n andwyol ar yr hawliau eiddo deallusol a nodwyd gan y Brifysgol. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y byddai person neu sefydliad yn awyddus i ddefnyddio'r wybodaeth y gofynnwyd amdani (mewn geiriau eraill bod yna farchnad bosibl iddi), y gallent wneud hynny'n llwyddiannus ac yr âi'r trosedd heb ei weld neu na ellid gwarchod rhag y trosedd.

96. Mae'r Comisiynydd wedi'i bodloni mai'r Brifysgol sydd biau'r hawliau eiddo deallusol i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Comisiynydd wedi'i darbwylllo hefyd gan y dadleuon a gynigiwyd gan y Brifysgol y byddai'n dioddef rhywfaint o golled wirioneddol drwy ddatgelu'r wybodaeth neu fod yna farchnad fasnachol bosibl i'r wybodaeth y byddai unigolion neu sefydliadau'n awyddus i'w defnyddio. Mae'r Comisiynydd hefyd yn derbyn sylwadau'r Brifysgol na fyddai'n hawdd atal y niwed neu'r golled i'w buddiannau masnachol drwy orfodi ei hawliau eiddo deallusol.
97. Ar sail yr uchod, mae'r Comisiynydd wedi'i bodloni y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn niweidio buddiannau masnachol y Brifysgol, a bod adran 43(2) yn berthnasol o ran yr wybodaeth a gadwyd yn ôl.

### **Prawf buddiant cyhoeddus**

98. Mae'r esemptiad o dan adran 43(2) o'r Ddeddf yn un amodol, sy'n golygu mai dim ond pan fo'r budd cyhoeddus o blaid cadw'r esemptiad yn drech na'r budd cyhoeddus o blaid datgelu'r wybodaeth y dylai'r wybodaeth o dan sylw gael ei chadw'n ôl.

### **Dadleuon budd cyhoeddus o blaid datgelu**

99. Mae'r Brifysgol yn derbyn bod yna fudd cyhoeddus mewn tryloywder ac atebolrwydd ynglŷn â'r modd y mae'n gweithredu. Mae'n cydnabod y byddai datgelu gwybodaeth ynghylch cynnyrch Cysgliad yn rhoi gwell gwybodaeth i'r cyhoedd am sut mae'r Brifysgol yn gweithredu o ran ei hunedau hunan-ariannu a'r gwaith unigryw sy'n cael ei wneud ynglŷn â'r Gymraeg. Barn y Brifysgol yw ei bod eisoes wedi cyflawni "this aspect of the request by signposting the requestor to various freely available resources".
100. Mae'r achwynydd o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn caniatáu i'r cyhoedd graffu ar ansawdd a gwendidau Cysill.

### **Dadleuon budd cyhoeddus o blaid cynnal yr esemptiad**

101. Mae'r Brifysgol yn haeru hyn:

"disclosure of this information, related to a commercial product for computers with Windows operating systems, is likely to affect the future

commercial interests which operates in a competitive environment during a very challenging financial period”.

102. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol ymglyfreitha yn erbyn unigolion a sefydliadau am dorri ei hawliau eiddo deallusol.
103. Mae'r Brifysgol o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth yn arwain wedyn at golli ymddiriedaeth gyda sefydliadau masnachol, er enghraifft Corfforaeth Microsoft y mae'n rhoi trwyddedau iddi ar wahân er mwyn iddi ddefnyddio'i chynnyrch gyda Microsoft Office. Gallai hynny yn ei dro greu effaith andwyol ar ddefnyddio'r cynnyrch yn fasnachol yn y dyfodol.
104. Mae'r Brifysgol o'r farn bod datgelu'r wybodaeth yn creu bygythiad credadwy i ddyfodol yr Uned a'i staff, gan fod yr Uned yn dibynnu'n llwyr ar refeniw o drwyddedau meddalwedd, sicrhau grantiau a chomisiynau i dalu am gyflogau a gwaith ymchwil. Nid yw peryglu incwm yr Uned a'i dyfodol o fudd i'r cyhoedd.

### **Cydbwysedd y budd cyhoeddus**

105. Mae'r ffaith y dyfarnwyd bod esemptiad wedi'i seilio ar niwed yn berthnasol yn golygu bod y Comisiynydd wedi derbyn y byddai datgelu'r wybodaeth o dan sylw yn creu effaith niweidiol ar y buddiant penodedig. Nid ailadrodd y dadleuon ynghylch niwed yw diben y prawf buddiant cyhoeddus, ond asesu'r pwysau a ddylai gael eu rhoi wrth bwysu a mesur y dadleuon o blaid datgelu ac o blaid cynnal yr esemptiad.
106. Yn yr achos hwn mae'r Comisiynydd wedi derbyn y byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio buddiannau masnachol y Brifysgol. Gan mai dyna lefel uchaf y niwed, mae'r pwysau a roddir iddo yn fwy na phe bai'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fyddai niwed yn debyg o gael ei achosi.
107. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r gwahanol ddadleuon ynghylch y budd cyhoeddus yn yr achos hwn. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o waith yr Uned. Byddai ei datgelu hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd ystyried ansawdd a gwendidau'r pecyn meddalwedd. Gan hynny mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod yna fuddiant dilys mewn datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Er hynny mae'n derbyn bod yr wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac y mae'r Brifysgol wedi cyfeirio'r achwynydd ati yn gwneud rhywfaint i fodloni'r ddadl budd cyhoeddus hon.
108. Mae'r Comisiynydd wedi'i darbwylllo bod y dadleuon o blaid cynnal yr esemptiad yn fwy grymus. Mae'r Brifysgol wedi dadlau y byddai datgelu'r wybodaeth yn yr achos hwn yn caniatáu i bobl eraill gopïo cynnyrch y mae wedi buddsoddi amser ac arian ynddo ac y byddai'n



anodd iawn iddi blismona ei hawliau eiddo deallusol. Byddai canlyniad o'r fath yn peryglu ei hincwm yn y dyfodol ac yn peryglu dyfodol yr Uned sy'n ei hariannu ei hun. Byddai'n arwain hefyd at golli ymddiriedaeth y mae wedi'i chreu gyda sefydliadau masnachol sydd â thrwyddedau masnachol ar wahân ynglŷn â chhydrannau allweddol yn y feddalwedd.

109. Am y rhesymau a nodwyd uchod mae'r Comisiynydd yn dyfarnu, o dan yr amgylchiadau yn yr achos hwn, fod y budd cyhoeddus o blaid cynnal yr esemptiad yn adran 43(2) o'r Ddeddf yn drech na'r budd cyhoeddus o blaid datgelu'r wybodaeth o dan sylw.

110. Mae gan y naill barti a'r llall hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

First-tier Tribunal (Information Rights)  
GRC & GRP Tribunals,  
PO Box 9300,  
LEICESTER,  
LE1 8DJ

Ffôn: 0300 1234504

Ffacs: 0870 739 5836

Ebost: [GRC@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:GRC@hmcts.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber](http://www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber)

111. Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad penderfynu, gallwch gael gwybodaeth am sut i apelio ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar wefan y Tribiwnlys Gwybodaeth.

112. Dylai unrhyw Hysbysiad Apelio gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad penderfynu hwn.

**Llofnod .....**

**David Teague  
Rheolwr Rhanbarthol (Cymru)  
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF**